**RHYBUDD o Benderfyniadau Cyfarfod Y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni , ddydd Llun, 29 Hydref, 2018**

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5:00pm ar ddydd Iau, 1 Tachwedd, 2018. Rhaid cyflwyno unrhyw geisiadau i alw i mewn unrhyw benderfyniad i'r Prif Weithredwr erbyn dim hwyrach na 5:00pm ar ddydd Iau, 8 Tachwedd, 2018. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) ar ddydd Gwener, 9 Tachwedd, 2018.

**Presennol**: Y Cynghorwyr Llinos Medi Huws (Cadeirydd), R. Meirion Jones, R G Parry OBE, FRAgS, Ieuan Williams, Alun W Mummery, Carwyn Jones a Robin Williams

**Hefyd yn bresennol**: Y Cynghorwyr Glyn Haynes, Eric Jones, Dylan Rees

**Ymddiheuriadau**: Y Cynghorwyr Richard Dew a Dafydd Rhys Thomas

(10:00 y. b. hyd at 10:45 y. b.)

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **3 Cofnodion**<br>Amherthnasol |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cymeradwyo cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 17 Medi, 2018 fel rhai cywir.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Amherthnasol** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 Cofnodion - Panel Rhiant Corfforaethol**<br>Amherthnasol |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd mabwysiadu cofnodion drafft cyfarfod y Panel Rhiant Corfforaethol a gynhaliwyd ar 10 Medi, 2018.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Amherthnasol** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **5 Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith**<br>Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau Blaenraglen Waith ddiweddaredig y Pwyllgor Gwaith am y cyfnod Tachwedd, 2018 i Mehefin, 2019 gyda'r newidiadau a amlinellwyd yn y cyfarfod.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cryfhau atebolrwydd a threfniadau Cynllunio ymlaen llaw.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **6 Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu - Diweddaru Cylch Gorchwyl**<br>Adroddiad gan Bennaeth Archwilio a Risg |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd argymell i'r Cyngor Llawn ei fod yn mabwysiadu Cylch Gorchwyl drafft newydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Mabwysiadu Cylch Gorchwyl drafft newydd ar gyfer y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Na. Bydd y penderfyniad yn cael ei wneud gan y Cyngor Llawn** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **7 Newidiadau i'r Cyfansoddiad - Gwelliant i'r Côd Ymddygiad i Swyddogion / Arweiniad Lleol ar y Côd Ymddygiad i Swyddogion.**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/ Swyddog Monitro |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd argymell bod y Cyngor Llawn yn –**<br><br>• **Mabwysiadu'r Côd Ymddygiad i Swyddogion yn Atodiad 2 i'r** |

| | |
|---|---|
| | adroddiad.<br>• **Mabwysiadu'r Canllawiau Lleol ar y Côd Ymddygiad i Swyddogion yn Atodiad 3 yr adroddiad.**<br>• **Awdurdodi'r Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro i wneud y newidiadau angenrheidiol i'r Cyfansoddiad, yn cynnwys unrhyw newidadau dilynol, er mwyn adlewyrchu'r ffaith fod Atodiadau 2 a 3 wedi cael eu mabwysiadu.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Gwneud newidiadau i Gyfansoddiad y Cyngor.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Na. Bydd y penderfyniad yn cael ei wneud gan y Cyngor Llawn** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **8 Cyllid ar gyfer Gwaith Llifogydd yn Llangefni**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo) Dros Dro |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd bod y Gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo yn derbyn £85k o gyllid cyfalaf er mwyn cwrdd â chost gwaith atgyweirio wal atal llifogydd tu cefn i Glandwr, Llangefni.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Er mwyn cwrdd â chost gwaith atal llifogydd yn Llangefni** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **9 Rheoli Gwastraff - Penodi Rheolwr Prosiect Dros Dro**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo) Dros Dro |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd awdurdodi penodi Rheolwr Prosiect Dros Dro hyd at 31 Mawrth, 2021 i –**<br>• **Gynnal arfarniad o'r opsiynau er** |

| | |
|---|---|
| | mwyn asesu sut y dylid casglu a glanhau gwastraff yn y dyfodol.<br>• Cyflawni swyddogaethau rheoli prosiect mewn perthynas â chaffael gwasanaeth casglu gwastraff a glanhau newydd fydd yn cychwyn ar 1 Ebrill, 2021.<br>• Rheoli prosiectau unwaith ac am byth ar draws y Cyngor yn ôl yr angen. |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Penodi Rheolwr Prosiect Dros Dro** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

# EITEM GYFRINACHOL

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **11 Moderneiddio Ysgolion Ynys Môn - Achos Strategol Amlinellol / Achos Busnes Amlinellol - Ysgol Gynradd Newydd yn lle Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Dysgu |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br>• Cymeradwyo'r Achos Strategol Amlinellol a'r Achos Busnes Amlinellol cyfunedig (ASA/ABA) ar gyfer yr ysgol gynradd newydd yn lle Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir.<br>• Bod y ASA/ABA yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.<br>• Bod derbyniadau cyfalaf i ariannu adeiladau'r ysgol gynradd newydd yn cael eu neilltuo yn amodol ar ddim problemau'n codi efo gwerthu'r safle(oedd). |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Bwrw ymlaen gyda'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |